# CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR

Dydd Mercher, 26 Ionawr 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Aelod o’r Cabinet).

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
S. Walters, Rheolwr Datblygu Economaidd;
C. Owen, Swyddog Biwro;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhith-Gyfarfod: 10.00 yb - 10.30 yb**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 15FED RHAGFYR 2021**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed Rhagfyr 2021, gan ei fod yn gywir.**

**3. GRANT TLODI BWYD CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU**

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar y bwriad i sefydlu menter i alluogi'r awdurdod i gefnogi’r nifer cynyddol o bobl sy'n wynebu tlodi bwyd. Cynigiwyd dosbarthu'r cyllid i fanciau bwyd lleol a oedd yn helpu i fynd i'r afael â thlodi bwyd yn y sir. Er mwyn nodi'r galw, byddai datganiadau o ddiddordeb yn cael eu gwahodd gan fanciau bwyd lleol, hyd at uchafswm o £3,500, i roi cymorth i brynu cyflenwadau ychwanegol o fwyd o ansawdd da a nwyddau hanfodol drwy gontract presennol y Cyngor gyda Bwydydd Castell Howell.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r gwaith o gyflawni'r fenter Tlodi Bwyd y manylwyd arni yn yr adroddiad.**

**4. CYMORTH ARIANNOL O'R CRONFEYDD GRANTIAU CANLYNOL: GRONFA CYLLID A DARGEDIR**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa Cyllid a Dargedir yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| **Gronfa Cyllid a Dargedir** | |
|---|---|
| **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| Menter Cilycwm | £20,000.00 |

**5. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai’r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i’r Ddeddf.**

6. **PEBBLE & CHEESE LTD (ADHAWLIO CYMORTH GRANT)**

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 5 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad o dan Ddeddf 1972 mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r person a'r busnesau a enwir yn yr adroddiad dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol.**

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar yr opsiynau o ran adennill y cymorth grant a ddyfarnwyd i Pebble & Cheese Ltd. [Cyfeirir at gofnod 6 o Gyfarfod Penderfyniadau'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ar gyfer yr Arweinydd a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2017] gan ei fod wedi dod i'r amlwg bod y busnes wedi rhoi'r gorau i fasnachu ac wedi cael ei hysbysebu ar werth ar 11 Mawrth 2020 cyn y cyfyngiadau symud a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU. Roedd yr adroddiad hefyd yn manylu ar ymateb yr ymgeisydd yn dilyn hysbysiad o'r posibilrwydd y byddai'n rhaid adennill y grant.

**PENDERFYNWYD peidio mynd ar drywydd y mater gan fod y grant wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith adnewyddu yn unig a hynny ar eiddo masnachol lle'r oedd angen cyflawni gwaith o'r fath.**

| | |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |